

Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Crynodeb



Cyflwyniad



Mae Partneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd yn cydweithio i ddod o hyd i dystiolaeth economaidd gadarn bod yr amgylchedd yn hanfodol i ffyniant Cymru. Dros y ddegawd diwethaf, mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru wedi bod yn arwain y gwaith, mewn cydweithrediad â phartneriaid craidd: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac adrannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn arbennig Croeso Cymru ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth.

Roedd Grŵp Amgylchedd Hanesyddol y Gweinidog Treftadaeth, a sefydlwyd i gynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar weithredu er budd yr amgylchedd hanesyddol a'i hybu, wedi nodi bod yng Nghymru ddiffyg tystiolaeth gyfoes sy'n dangos holl rychwant ei manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn ogystal, roedd diffyg methodoleg gyson o ran casglu data yn barhaus. Cytunodd Partneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd i arwain y gwaith ymchwil hwn drwy gyfrwng gweithgor arbennig a arweinir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r gweithgor yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cadw, Croeso Cymru ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth), Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri a Chronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL).

Delweddau:

Clawr Blaen

(gyda'r cloc o'r uchaf ar y chwith)

Castell Caernarfon

Darganfod Dyffryn Tywi © Tywi Afon yr Oesoedd

Sgiliau adeiladu traddodiadol © Tywi Afon yr Oesoedd

Big Pit Blaenafon © HLF/Darren Britton

Camlas, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plentyn yn gwisgo helmed © NTPL/Paul Harris

Tudalen 2 (chwith i'r dde)

Bachgen ifanc yng Nghastell Caernarfon

© Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(Hawffraint y Goron)

Big Pit Blaenafon © HLF/Darren Britton

Plas Mawr, Conwy

© Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(Hawffraint y Goron)

Tudalen 4 (chwith i'r dde)

Gwesty Morgans © Gwesty Morgans

Tŷ a Gerddi Erddig

© NTPL/Rupert Truman

Olympiad diwylliannol yng Nghastell Caernarfon

© Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(Hawffraint y Goron)

Prif Ddelwedd:

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

© Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(Hawffraint y Goron)



Ymchwil, cynllunio a chynhyrchu'r adroddiad gan
ECOTEC Research and Consulting Ltd.

Comisiynydd gan:



Canfyddiadau Allweddol

Mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn ased gwerthfawr sy'n chwarae rôl allweddol wrth wella lles amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cymunedau Cymru. Mae'n hanfodol gofalu am yr ased hwn a'i hybu; unwaith y caiff elfennau ohono eu colli neu eu hanghofio, go brin y bydd modd eu hadennill.

Graddfa Amgylchedd Hanesyddol Cymru

- Bron i 30,000 o adeiladau rhestredig.
- Dros 4,000 o henebau cofrestredig.
- Tri Safle Treftadaeth y Byd.

Gwerth Economaidd Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n sylweddol iawn at economi Cymru.

Er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r asesiad economaidd yn gadarn, aethpwyd ati i asesu mewn ffordd geidwadol iawn.

- Amcangyfrir bod sector yr amgylchedd hanesyddol yn cefnogi 30,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) yng Nghymru.
- Mae'n cyfrannu tua £840 miliwn i werth ychwanegol crynswth (GYC) cenedlaethol Cymru, sy'n cynrychioli 1.9% o gyfanswm GYC Cymru.
- Yn nhermau allbwn, mae'n cyfrannu rhyw £1.8 biliwn.
- Mae cyfran sylweddol o effeithiau economaidd yn ymwneud â gwariant twristiaeth y gellir ei briodoli i'r amgylchedd hanesyddol.

Gwerth Ehangach Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Mae gwerth cyhoeddus ehangach amgylchedd hanesyddol Cymru yn sylweddol; mae'n cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau.

Economaidd

- Cefnogi gweithgareddau adfywio ehangach
- Yn gatalydd i fuddsoddiad
- Gwella sgiliau ar gyfer swyddi

Amgylcheddol

- Diogelu'r amgylchedd hanesyddol
- Cynnal ansawdd a bioamrywiaeth amgylcheddol
- Arbed ynni drwy ailwampio adeiladau hanesyddol

Cymdeithasol

- Hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol a'r ddealltwriaeth ohono
- Gwella hunaniaeth a chydlyniant cymunedol
- Gwella balchder bro
- Gwella cynneddf a pherchnogaeth gymunedol
- Hybu lles a gwella ansawdd bywyd
- Cynnig cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed a chefnogi cwricwlwm cenedlaethol Cymru

Y Gwaith Ymchwil



Yn 2010, comisiynwyd ECOTEC Research and Consulting Ltd gan y Bartneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd i wneud gwaith ymchwil er mwyn rhoi gwerth ar amgylchedd hanesyddol Cymru; a hynny yn nhermau economaidd pur ac yn yr ystyr ehangach, sef ei werth cymdeithasol. Roedd y gwaith ymchwil hefyd yn cynnwys datblygu fframwaith monitro a gynigodd fethodoleg gyson i bartneriaid yn y sector fynd ati i gasglu data yn barhaus.

Mae'r model ar gyfer asesu effaith economaidd yr amgylchedd hanesyddol yn seiliedig ar fframwaith incwm a gwariant, a gafodd ei lywio gan ystod o ddata a llenyddiaeth eilaidd, ynghyd ag ymgynghoriadau â 38 o unigolion, o 24 o sefydliadau sydd wrthi'n gweithredu yn sector amgylchedd hanesyddol Cymru. Caiff gwerth cymdeithasol ehangach yr amgylchedd hanesyddol ei gasglu'n bennaf drwy astudiaethau achos, a oedd yn cynnwys 11 o ymgynghoriadau pellach.

Mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol wedi'u nodi yma a chaiff canfyddiadau llawn yr ymchwil eu cyflwyno yn yr adroddiadau canlynol:

- Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru
- Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Adroddiad Technegol ar yr Effaith Economaidd
- Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Fframwaith Monitro

Am ragor o wybodaeth ffoniwch yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar 02920 462 281

www.nationaltrust.org.uk/value-welsh-historic-environment

Medi 2010

